Theatr Iolo

*Galw pob*

# DRAMODYDD IFANC




# Croeso

Mae straeon ym mhobman.

Straeon y byddwch chi'n eu darllen mewn llyfr, neu'n eu gweld ar y teledu.

Straeon ar y newyddion neu sy'n digwydd i bobl rydych chi'n eu hadnabod.

Straeon o'r gorffennol, neu rai y byddwch chi'n eu rhannu ar Instagram neu Twitter.

**Byddwn ni'n cyflwyno 3 phwnc i chi feddwl amdanyn nhw wrth ysgrifennu straeon i'r llwyfan.**

# Pwnc Un

## Adrodd Straeon

Theatr Iolo

# 1. Ysgrifennu ar gyfer llyfrau

Theatr Iolo

***Wrth ysgrifennu ar gyfer llyfr, bydd yr awdur yn disgrifio popeth sy'n digwydd***

**Dyma enghraifft ichi:**

Y diwrnod y newidiodd popeth, roedd Seren Jones mewn hwyliau drwg iawn. Nid yn unig roedd ei gliniadur wedi torri a sgrin ei ffôn wedi cracio, ond roedd ei rhieni hefyd am ei chadw hi'n gaeth i'r tŷ fel cosb.

A hynny'n gwbl annheg, yn ei barn hi, oherwydd doedd neb wedi dweud wrthi bod yn rhaid iddi fod adre erbyn deg o'r gloch. A beth bynnag, dim ond yn nhŷ Erin yn gwylio *Friends* oedd hi, ddim yn yfed yn y parc neu'n gwneud pa bynnag ddrygau hurt oedd ym meddwl ei rhieni.

Symudodd Seren at y ffenest ac edrych allan gydag ochenaid drom, drist. Pendronodd a fyddai hi'n rhydd fyth eto. Roedd bywyd yn mynd yn ei flaen fel arfer ar y stryd.

Roedd Dean ar y palmant yn esgus trwsio'i gar, a Kiss FM yn bloeddio.

Roedd llenni Jean dros y ffordd yn dawnsio pryd bynnag y byddai hi'n clywed ci'n cyfarth. Dydd Sul arferol, diflas yn Bontdu. Ac yna'n sydyn fe'i gwelodd.

Yn hedfan dros doeau'r tai mor dawel, fe allech chi'n hawdd iawn fod wedi'i fethu.

Disg arian, loyw, anferth, yn symud yn ddiymdrech drwy'r awyr.



# 2. Ysgrifennu ar gyfer papurau newydd

*Mewn papurau newydd, byddwn ni'n canolbwyntio ar y ffeithiau*

**Dyma enghraifft ichi:**

Ddoe, am 15.07, gwelodd un o drigolion Bontdu, Seren Jones, wrthrych rhyfedd yn yr awyr




Theatr Iolo

# 3. Ysgrifennu ar gyfer ffilm

*Mewn ffilmiau, byddwn ni'n gweld pethau'n digwydd wrth i'r stori ddatblygu*

Er enghraifft, byddwn ni'n gweld ystafell wely Seren, ac yn ei gweld hi'n ceisio defnyddio'i gliniadur.

Byddai'r camera yn sicr yn canolbwyntio ar yr olygfa ryfedd y mae Seren yn ei gweld, yn ogystal ag ar ei hymateb.



# 4. Ysgrifennu ar gyfer y llwyfan

***Dyma enghraifft ichi:***

*Mae Seren yn gorweddian ar ei gwely. Daw cnoc ar y drws.*

**SEREN:** Elli di'm darllen? Mae'n dweud CADWCH MAS
*Mae'i mam yn agor y drws*
**SEREN:** O.
**MAM:** Ie.
**SEREN:** O'n i'n meddwl mai Cai oedd 'na.
**MAM:** Oeddet ti wir?... Pryd wyt ti am roi'r gorau i bwdu?
**SEREN:** Pryd wyt ti'n mynd i adael imi fynd mas?
**MAM:** Os wyt ti am siarad â fi fel'na, ferch, ddim am sbel.
**SEREN:** Fedra' i ddim *credu* pa mor annheg wyt ti.
**MAM:** Ti'n gwybod beth yw'r rheolau. Ac fe dorrest ti nhw.
**SEREN:** Ond munud ar ôl deg oedd hi.
**MAM:** Roedd hi'n bedwar deg dau munud wedi.
**SEREN:** Beth bynnag, ers pryd ma 'na reola am amser dod adre? O'n i ddim yn gwybod fod yna *curfew*..
**MAM:** Ti'n gwybod yn iawn.
**SEREN:** Yyyy! Mae hi fel Rwsia dan Stalin yn y tŷ yma. A pheth arall. .Does na'mm byd i wneud. Mae'r gliniadur wedi torri. Mae'r sgrin ar y ffôn wedi cracio. Sut fedra' i siarad â neb na gwneud gwaith? Ti'n dwyn fy hawliau dynol.
**MAM:** Darllena lyfr.
**SEREN:** Yyyyyy!
**MAM:** Oes gen ti ddillad i'r golch?
**SEREN:** Nag oes. Achos cha' i ddim mynd i nunlle, fyth eto. .Fi'n mynd i neud protest noeth. Mi wneith hynny i gyrtens Jean symud.
**MAM:** .Na ni te. Joia. .
*Mae Mam yn gadael. Mae Seren yn dyrnu ei gobennydd.*
**SEREN:** Yyyyyy!
*Mae Seren yn mynd draw at y ffenest ac yn edrych drwyddi. Mae rhywbeth uwch y gorwel yn dal ei llygad. Mae hi'n siarad â hi'i hun*
**SEREN:** Beth.... Beth yn y byd??

***Mewn drama lwyfan, byddwn ni'n dod i ddeall y stori wrth i Seren a'i Mam siarad â'i gilydd, yn ogystal ag wrth weld rhywfaint o'r hyn sy'n digwydd***



Theatr Iolo

# Ysgrifennu Drama

**Felly, drwy'r ddeialog yn ein drama, down i ddeall llawer am yr hyn sydd eisoes wedi digwydd, am gymeriadau Mam a Seren, ac am y berthynas rhyngddyn nhw.**



Theatr Iolo

## Ysgrifennwch y pethau rydyn ni'n eu gwybod ar ddiwedd yr olygfa hon:

- Rydyn ni'n gwybod enw Seren
- Rydyn ni'n gwybod ei bod hi mewn hwyliau drwg ac wedi diflasu
- Rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n ddig at ei mam am ei chadw i mewn yn y tŷ yn annheg



## Faint o ffeithiau eraill y gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

# Rhowch gynnig ar ysgrifennu’r ddeialog ar gyfer yr olygfa nesaf

## Enghraifft 1

Efallai y byddwn ni’n cyfarfod gweddill teulu Seren ac yn gweld a yw’r hyn mae hi wedi’i ddweud amdanyn nhw’n wir
**Neu**
Efallai y gallwn ni fynd y tu mewn i’r ddisg arian i ddeall pwy neu beth sydd yno

**Mewn dramâu rydyn ni’n gwylio pobl yn gwneud pethau, ac wrth inni eu gwylio rydyn ni’n darganfod mwy am eu cymeriadau a’r stori.**

**Rydyn ni’n darganfod y stori drwy sgyrsiau’r cymeriadau – eu sgyrsiau â ni neu â’i gilydd. Mewn sawl ffordd mae’r broses o wylio drama fel bod yn dditectif. Rydyn ni’n cael cliwiau am y cymeriad, y lleoliad a’r plot drwy sgyrsiau y cymeriadau.**

**Rhywbeth yn debyg i hyn**

### Beth pe bai’r actorion yn siarad yn uniongyrchol â’r gynulleidfa?

Beth pe bai Seren ar ei phen ei hun, yn ei hystafell wely? Sut y gallwn ni ddarganfod mwy amdani hi a’i sefyllfa? Efallai y gallai hi siarad â ni’n uniongyrchol.

***Enghraifft 2***

*Golau ar ystafell wely fechan, gyfyng. Mae Seren, merch yn ei harddegau, yn edrych yn ddigalon ar ei ffôn*

**SEREN:** Fi wedi cael llond bol. Go iawn,-fi yn ferch amyneddgar, ond onest ma hyn yn ormod! Smo fi’n cael mynd mas. Pam? Oherwydd cyrhaeddes i gartre *bum* munud yn hwyr o dŷ Erin y noson o’r blaen ac roedd Mam yn credu bod rhyw lofrudd gwyllt wedi fy lladd i a ’mwydo i fleiddiaid. Neu wedi cael fy herwgipio gan *people traffickers* a chael fy ngyrru i Romania i weithio yn y caeau reis. Oes ganddyn nhw reis yn Romania? ... Beth bynnag, o’n i’n gwylio *Friends!* Shwt ma hynna yn cambyhafio? Ond mae *hi*, Arglwyddes Anhegwch lawr staer, hynny yw fy mam annwyl, wedi penderfynu ’mod i nawr yn gorfod aros i mewn tan ... wel... smo i’n gwybod pryd. Falle wythnos nesa nawr bod fy fy ngliniadur i a’r ffôn wedi torri. Mae Hi’n Sadist. Ac mae ’mywyd i’n swyddogol ar ben.

*Mae Seren yn symud tuag at y ffenest. Mae hi’n ochneidio’n ddramatig.*

**SEREN:** Dylen nhw ailenwi’r dre yma. Onest.Dylen nhw’i galw hi’n AberBoring. LlanBoring. BontBoring yn lle Bontdu. Does dim byd *byth* yn digwydd yma. Ac os *mae na*, yr un pethau o hyd ye nhw. Iep. Dean drws nesa’n ceisio trwsio’i gar er nad ydy e’n gallu gyrru. Iep! Jean ar draws y ffordd yn bod yn hen drwyn o flaen y cyrtens sy’n symud. Ac wedyn...

*Yn sydyn mae’i hwyneb yn newid*

**SEREN:** O. Mam bach... Welsoch chi e? *Welsoch* chi e? Beth oedd e...? Fi’n meddwl ’mod i newydd weld UFO!

## Pa bethau ychwanegol rydyn ni’n eu dysgu?

- Ydyn ni’n dysgu unrhyw beth ychwanegol yn y fersiwn hon?
- A yw’n beth da ynteu ddrwg ein bod ni’n dysgu mwy?
- A yw’n well weithiau inni adael i’r gynulleidfa greu’r cysylltiadau?

**Pwynt pwysig i’w wneud am Enghraifft 2 yw mai dim ond safbwynt Seren a gawn ni, ac nid safbwynt ei mam.**

# Pwnc Dau

## Lleoliad, Lleoliad, Lleoliad

Theatr Iolo

# Lleoliad

Lleoliadau yw'r llefydd lle bydd y stori'n digwydd. Gallai hyn fod ar y lleuad, ar draeth, neu hyd yn oed yn eich cegin.

Mewn ffilm, mae'n hawdd dangos lleoliad, gan mai'r unig beth sydd angen ei wneud yw dangos lle mae'r peth yn digwydd. trwy'r camera

Ar lwyfan mae'n anodd symud o un lleoliad i'r llall yn realistig, felly mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd o ddweud wrth y gynulleidfa pryd y bydd y lleoliad yn newid. (os ydyn ni *am* iddyn nhw wybod hynny, wrth gwrs)

Os yw'r olygfa nesaf i ddigwydd y tu mewn i'r llong ofod er enghraifft, sut y gallwn ni wybod ein bod ni y tu mewn iddi? Pe bai hon yn ffilm, byddai modd defnyddio effeithiau arbennig i ddangos Seren yn hedfan drwy'r ffenest wrth i laser ei sugno i mewn i'r llong.

**Sut y gallen ni wneud hyn ar y llwyfan... heb iddo gostio miliynau o bunnau?**

Theatr Iolo



## Enghreifftiau posibl

- Mae'r llwyfan yn tywyllu, mae Seren yn sgrechian ac fe glywn ni sŵn bodau estron, rhyfedd.
- Mae'r goleuadau'n aros ymlaen, ond ceir synau rhyfedd wrth i Seren edrych o'i hamgylch a dweud, "ble ydw i?"
- Os yw Seren yn cyfarch y gynulleidfa'n uniongyrchol, fe all hi ddweud wrth y gynulleidfa lle mae hi'n meddwl y mae hi.

## Pa ffyrdd eraill sydd o ddangos ble mae'r olygfa'n digwydd?

**Awgrym 1** Mae'r theatr yn aml ar ei gorau'n portreadu lleoliadau'n **ddychmygol** yn hytrach nag yn **realistig.**

**Awgrym 2:** Wrth gwrs, fel awdur, mae modd datgan ble mae'r golygfeydd yn digwydd, a dim mwy – gan adael i'ch actorion a'ch cyfarwyddwr i benderfynu sut i ddarlunio hynny.

Efallai y gallwn ni **gyfleu**'r hyn rydyn ni am ei ddweud mewn stori heb fyth symud, neu gyfarfod pobl heb fyth eu gweld.

# Lleoliad

## Enghraifft 1

Felly, yn hytrach na chael golygfa ar long ofod, efallai y bydd gliniadur Seren yn atgyfodi'n sydyn, gan ddarlunio bod estron rhyfedd ond hardd.
Neu efallai ei fod yn ymddangos yn ffenest Seren.

## Enghraifft 2

Yn hytrach na newid y lleoliad i'r gegin lawr staer, efallai y gall yr holl ymwneud â theulu Seren ddigwydd oddi ar y llwyfan, fel nad ydyn ni'n eu gweld nhw. Gallen ni glywed eu lleisiau, ond gan aros yn realiti Seren yn ei hystafell.

**Rhywbeth yn debyg i hyn, efallai**

*Mae Seren yn gorwedd ar ei gwely, wedi diflasu'n llwyr. Mae hi (a'r gynulleidfa) yn gallu clywed lleisiau'i rhieni yn gweiddi lawr staer*

**DAD (O'R GOLWG):** Beth ti'n ddisgwyl imi'i wneud?
**MAM (O'R GOLWG)** Mae 'na filie drydan... nwy...
**DAD (O'R GOLWG):** Fi'n gweithio bob awr o'r dydd...
**MAM (O'R GOLWG):** ...BT Sport! Gall hwnna fynd i gychwyn.
**DAD (O'R GOLWG):** BETH?!
**MAM (O'R GOLWG)** Dyw e ddim yn hanfodol, Mal.
**DAD (O'R GOLWG):** Dyna'r unig beth sy'n fy nghadw i'n gall, cariad.

*Yn sydyn, mae'r gliniadur sydd wedi torri yn goleuo ac yn ffrwydro. Mae Mam a Dad yn dal i ddadlau, heb sylwi. Mae Seren yn neidio mewn braw.*

**SEREN:** O mam ... (Bach). Damo, damo, damo...

*Mae hi'n gafael yn ei gwydryn o ddŵr ac yn ei daflu dros y gliniadur. Mae hi'n cau ei llygaid ac yn aros am ffrwydrad arall. Nid yw'n dod. Ond mae'r ystafell yn troi'n dywyll i gyd.*

**DAD: (O'R GOLWG)** Seren! Se-ren! Mae'r ferch yna wedi ffiwsio'r blydi tŷ eto!
**MAM (O'R GOLWG)** Dere lawr yma, ferch, cyn imi dy lusgo di i lawr.

*Mae Seren yn symud tuag at y drws. Daw llais tawel o'r tywyllwch.*

**HARRI:** Paid â mynd
**SEREN:** Beth
**HARRI:** Plîs. Paid â mynd.

*Drwy ryw hud a lledrith, daw'r goleuadau yn ôl ymlaen. Yn sefyll yn go agos i Seren, fymryn yn wlyb oherwydd y dŵr, mae'r bachgen bach mwyaf hardd a welsoch chi erioed. Ar wahân i'r ffaith ei fod yn lliw glas llachar o'i gorun i'w sawdl.*

**DAD: (O'R GOLWG)** Panig drosodd. Mae'r goleuadau yn ôl!

*Mae Seren yn syllu a rhythu. Mae Harri'n gwenu arni.*

**Cofiwch y bydd angen atebion llawn dychymyg wrth osod lleoliadau, ac fe allwch chi roi'r rhain yn y sgript fel "cyfarwyddiadau llwyfan", neu adael i'r actorion a'r cyfarwyddwr ddatrys hyn.**

# Pwnc Tri

## Delweddau, Symbolau a Sain

Theatr Iolo

# Delwedddau a Symbolau

Theatr Iolo

Mae llawer o’r byd theatr yn ymwneud â **Delweddau** a **Symbolau**.

Lluniau neu wrthrychau yw’r rhain sy’n gwneud inni greu cysylltiadau â syniadau penodol, cysyniadau, teimladau neu hyd yn oed leoliadau.

***Felly os ddangosa i y llun yma iti o afal coch***



Wel, dim ond afal sydd yma, ie ddim? Byrbryd braf, iachus.
Ond dychmygwch fod y llwyfan yn goleuo a’r cyfan y gallech ei weld oedd yr afal coch, llawn sudd hwn ar blât ar fwrdd, beth fyddai’n mynd drwy’ch meddwl?
Efallai y byddech chi’n credu bod rhywun newydd gael ei wenwyno (fel yn Eira Wen). Neu bod rhywun wedi’i demtio i’w fwyta (fel Adda ac Efa)

**Mae rhai gwrthrychau yn gallu bod yn bwerus ar y llwyfan fel symbolau o syniadau neu fydoedd penodol, heb i neb yngan gair.**

# Gadewch inni roi cynnig ar ragor.

## Pe bai'r llwyfan yn goleuo a'ch bod yn gweld y lein ddillad hon

- Am beth fyddech chi'n meddwl?
- Pwy fyddai'r person cyntaf y byddech chi'n disgwyl ei weld?
- Beth fyddai pwnc y ddrama tybed?

Theatr Iolo



# Beth am y ddelwedd hon?

Theatr Iolo

- Fyddech chi’n ymateb yn wahanol?
- Am bwy fyddai’r ddrama, yn eich tyb chi?



**Mae dillad yn ddelweddau arbennig o dda gan eu bod nhw’n gwneud inni feddwl am y bobl a fyddai’n eu gwisgo**

# Beth am y ddelwedd hon?

- Pa eiriau sy'n dod i'ch meddwl?
- Sut ydych chi'n teimlo?
- Ble ydyn ni?
- Beth fyddech chi'n disgwyl ei weld a'i glywed?

Theatr Iolo



# Beth am y ddelwedd hon?

Theatr Iolo

- Am beth fyddech chi'n meddwl?
- Ble a phryd y gallai'r ddrama fod yn digwydd?

Mae'r llong mewn potel ychydig yn wahanol i'r delweddau eraill gan ei fod yn fwy o symbol. Mae'n **cynrychioli byd gwahanol** mewn ffordd fwy barddonol.



**Gall delweddau a symbolau achosi inni feddwl am amser, lle, neu fyd hyd yn oed, a hynny cyn gweld yr un person. Fe allwn ni wneud yr un fath gyda sain hefyd.**

# Seiniau

## Gadewch inni ddychmygu sŵn y gwynt yn chwythu’n uchel ar ddydd o aeaf.

- Pa lun fyddai’n cyd-fynd yn dda â hynny?
- Meddyliwch am sut y gallai’r lluniau eich helpu i ddychmygu’r sain?
- Beth os byddwn ni’n rhoi’r sain gyda’r afal neu’r ddesg ysgol?

**Weithiau mae’n hwyl rhoi dau beth ynghyd na fydden ni’n meddwl amdanyn nhw fel arfer.**

Pan fydd rhywbeth yn **anarferol** neu’n wahanol i’r pethau y byddwn ni’n eu gweld bob dydd, mae’n ein synnu ac fe all yn aml danio ein dychymyg wrth feddwl am fan cychwyn da i ddrama.









# Ewch ati i feddwl a cheisio rhoi gwahanol luniau a seiniau ynghyd.

Dyma restr ichi ei defnyddio:

| LLUNIAU | SEINIAU |
|---|---|
| Cannwyll yn llosgi | Fan hufen iâ |
| Crysau gwyn ar y lein ddillad | Coed yn cael eu torri |
| Menyw mewn gwisg wen hir a fêl | Glaw yn curo ar y ffenest |
| Pelen o wlân coch | Plant yn chwarae |
| Rhes o deganau plant | Awyren yn codi |
| Llawer o blanhigion jyngl mawr | Peiriant yn torri gwair |
| Cês lledr brown mawr | Cloch eglwys yn canu |
| Pentyrrau o arian | Ci yn chwyrnu |

- Am beth mae'r rhain yn gwneud ichi feddwl?
- Allwch chi ddychmygu byd a chymeriadau posibl?
- Beth allai ddigwydd, efallai, mewn drama sy'n cynnwys y delweddau hyn?

**Fe all delweddau, symbolau a seiniau roi ymdeimlad grymus a chlir iawn o le ac amser inni.**

# I grynhoi:

Mae ysgrifennu i'r llwyfan yn **wahanol** i ysgrifennu straeon i'r radio, teledu a ffilm.

Mae'n bwysig ein bod ni'n gofyn i gynulleidfaoedd ddefnyddio'u **dychymyg** wrth inni ddangos gwahanol lefydd ac adegau iddyn nhw.

Mae **deialog a monologau**, neu'r sgwrsio rhwng cymeriadau neu'r sgwrsio gyda'r gynulleidfa, yn arbennig o bwysig yn y byd theatr gan ei fod yn ein helpu i ddod i ddeall y cymeriadau, beth maen nhw'i eisiau, a'r sefyllfa y maen nhw ynddi.

Fe all **delweddau, symbolau a seiniau** roi ymdeimlad grymus a chlir iawn o le ac amser inni.

